

SWYDDOGOL
HEB EI FARCIO'N DDIOGEL

CANLLAWIAU a GWEITHDREFNAU		
Teitl:	Yr Iaith Gymraeg	
Maes Busnes / Ymarfer:	Datblygu Corfforaethol	
Yr Adran sy'n Gyfrifol:	Datblygu Corfforaethol	
Cyhoeddwyd Gyntaf:	31 Mawrth 2017	Cofnod Diwygiadau
Adolygwyd Ddiwethaf:	31 Mawrth 2017	Mae'r ddogfen hon yn gymwys i gyflogeion:
Rhif y Fersiwn:	1.0	Y Prif Gwnstabl a Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu
CENHADAETH A GWELEDIGAETH HEDDLU DE CYMRU:		
CADW DE CYMRU'N DDIOGEL SICRHAU MAI NI YW'R GORAU AM DDEALL AC YMATEB I ANGHENION EIN CYMUNEDAU		
AMCAN GWEITHDREFN HEDDLU DE CYMRU:		
<p>O fis Ebrill 2017, mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl, ynghyd â llawer o gyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru, gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg (y Safonau). Amlinellir y Safonau hyn yn fanwl yn yr hysbysiad cydymffurfio cyfreithiol a roddwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl.</p> <p>Mae copi o'r hysbysiad cydymffurfio, sy'n cynnwys yr holl Safonau, ar gael yn adran Deunydd Cyfeirio y ddogfen hon ac mae'n amlinellu'r gwasanaethau Cymraeg y gall unrhyw aelod o'r cyhoedd ddisgwyl eu cael gan Heddlu De Cymru. Mae hefyd yn cynnwys nifer fawr o ymrwymadau mewn perthynas â'r Gymraeg i staff er mwyn sicrhau bod gweithle dwyieithog yn cael ei hyrwyddo.</p> <p>Mae'r ddogfen hon yn rhoi trosolwg o'r prosesau sydd ar waith i sicrhau bod camau i gydymffurfio â'r Safonau yn cael eu hyrwyddo gymaint â phosibl. Gall methiant i gydymffurfio ag unrhyw agwedd ar y Safonau arwain at gamau gweithredu, gan gynnwys dirwyon, gan Gomisiynydd y Gymraeg. Rhaid i bob cyflogai ddarllen cynnwys y ddogfen hon a chyfeirio ati yn ôl yr angen.</p>		
CANLLAWIAU:		
Mae pob agwedd ar y canllawiau hyn yn orfodol.		
ASESIAD RISG CYFFREDINOL:		
Nid oes angen cynnal unrhyw asesiad risg mewn perthynas ag lechyd a Diogelwch.		
GWEITHDREFN:		
1. CYFIEITHU I'R GYMRAEG: Elfen allweddol o'r gallu i gydymffurfio â'r Safonau yw bod yn ymwybodol o'r broses i'w dilyn er mwyn cael cyfieithiadau Cymraeg.		
Mae gan yr Heddlu gontract cyfieithu â chyflenwr allanol. Rhaid i bob darn o waith cyfieithu, gan gynnwys gwaith cyfieithu ysgrifenedig a chyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd a digwyddiadau, gael ei ddarparu gan y contractwr hwn. Gellir gwneud ceisiadau am waith cyfieithu drwy'r mewnflwch ' Cyfieithiadau Cymraeg '.		
Mae'r gwasanaeth cyfieithu ar gael o ddydd Llun i ddydd Gwener, rhwng 9:00 am a		

5:00 pm.

2. GOHEBIAETH:

Nod y Safonau yw hyrwyddo amgylchedd cwbl ddwyieithog ac mae'n rhaid cadw hyn mewn cof yn achos pob gohebiaeth.

Os byddwch yn cael gohebiaeth (llythyr neu e-bost) gan rywun yn Gymraeg, **rhaid** i chi ymateb yn Gymraeg bob amser.

Pan fyddwch yn gohebu â rhywun am y tro cyntaf neu os nad ydych yn gwybod ei ddewis iaith, **rhaid** i chi ohebu yn Gymraeg a Saesneg.

Rhaid cynnwys troednodyn ar waelod pob e-bost a llythyr yn egluro bod Heddlu De Cymru yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Mae'r frawddeg y cytunwyd y dylid ei defnyddio i'w gweld mewn print trwm isod. Caiff y frawddeg hon ei chynnwys yn awtomatig ar waelod negeseuon e-bost a phapur pennawd o 30 Mawrth 2017 ymlaen. Os byddwch yn anfon llythyr mewn unrhyw fformat arall ar wahân i'r uchod neu ar hen bapur pennawd, rhaid ychwanegu'r frawddeg isod.

Mae Heddlu De Cymru yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

South Wales Police welcomes receiving correspondence in Welsh and English. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae angen i bob llofnod e-bost fod yn gwbl ddwyieithog. Mae hyn yn cynnwys teitlau swyddi, cyfeiriadau ac unrhyw eiriad arall. Mae amrywiaeth o gyfieithiadau o deitlau swyddi i'w gweld ar y dudalen [Iaith Gymraeg ar Connect](#). I gael cyngor ar unrhyw gyfieithiadau nad ydynt ar y rhestr, bydd hi'n bwysig eich bod yn siarad â chydweithiwr sy'n siarad Cymraeg yn gyntaf neu'n anfon e-bost i'r mewnflwch [Cyfieithiadau Cymraeg](#)

Rhaid cynnwys y bathodynau canlynol mewn llofnodion e-bost awtomatig os ydych yn dysgu Cymraeg neu'n siarad Cymraeg:

Dysgwyr:



Siaradwyr:



HEB EI FARCIO'N DDIOGEL
SWYDDOGOL

Rhaid i bob neges e-bost 'allan o'r swyddfa' fod yn gwbl ddwyieithog. Fel uchod, **rhaid** darparu yn **union** yr un neges yn y ddwy iaith. Mae amrywiaeth o negeseuon ar gael ar y dudalen Iaith Gymraeg ar Connect.

3. GALWADAU FFÔN:

Wrth ateb y ffôn, mae'n **hanfodol** rhoi cyfarchiad cwbl ddwyieithog. Y cyfarchiad y cytunwyd y dylid ei ddefnyddio yw:

Bore Da/Prynhawn Da Heddlu De Cymru, (enw) yn siarad.

Good Morning/Good Afternoon South Wales Police, (name) Speaking

Os bydd y galwr yn dechrau siarad yn Gymraeg a'ch bod yn ddi-Gymraeg, bydd angen i chi ddweud y frawddeg isod yn gwrtais:

Rwy'n flin dydw i ddim yn siarad Cymraeg.

I'm sorry I don't speak Welsh.

Dylech barhau â'ch eglurhad yn Saesneg, oni bai eich bod yn teimlo'n ddigon hyderus i ddweud:

Byddai'n trio ffeindio rhywun i helpu chi

I will try and find someone who can help you.

Ar y cam hwn, bydd angen i chi egluro'n gwrtais yn Saesneg y byddwch yn trefnu bod rhywun yn ei ffonio'n ôl. Mae'n hollol dderbyniol cynnig trefnu bod rhywun yn ffonio'r unigolyn yn ôl os yw'n dymuno siarad â rhywun yn Gymraeg ond ni ddylid oedi gormod cyn gwneud hyn. Dylid trefnu bod rhywun yn ffonio'r galwr yn ôl cyn gynted ag y daw'r alwad i ben.

Os oes angen gwybodaeth arbenigol ar y galwr mai dim ond aelod di-Gymraeg o'r tîm sy'n gallu ei rhoi, mae'n dderbyniol egluro mai dim ond yn Saesneg y gellir rhoi'r wybodaeth honno oherwydd y pwnc dan sylw. Byddai'n ddefnyddiol ac yn arfer de trefnu galwad gwrteisi gan siaradwr Cymraeg i gyfleu'r neges hon.

Mae'r cyfeiriadur corfforaethol ar Connect yn cynnwys manylion pob aelod o staff sy'n siarad Cymraeg. Gall siaradwyr Cymraeg helpu gyda chyfieithiadau syml y gallai fod eu hangen, er enghraifft, negeseuon 'allan o'r swyddfa' neu 'lofnodion awtomatig'. Er y gall staff Cymraeg gynnig gwasanaeth defnyddiol ar gyfer cysylltiadau ffôn a chyngor cyfieithu cyflym a syml, **ni** ddisgwylir iddynt wneud gwaith cyfieithu yn lle'r gwasanaeth cyfieithu dan gontract. Ni ddylai unrhyw gymorth olygu mwy o waith i'r unigolyn e.e. gall siaradwr Cymraeg helpu i gyfleu ystyr llythyr cyfrwng Cymraeg ond ni ellir disgwyl iddo ddelio ag unrhyw gamau gweithredu sy'n gysylltiedig â'r llythyr ei hun. Dylid defnyddio'r gwasanaeth dan gontract gymaint â phosibl ar gyfer ceisiadau ysgrifenedig ac yn sicr ar gyfer dogfennau hir.

Rhaid i negeseuon peiriant ateb fod yn ddwyieithog bob amser. Mae hyn yn cynnwys negeseuon ar bob ffôn swyddfa a ffonau symudol a ddarperir drwy'r gwaith. Rhaid rhoi yn union yr un neges yn Gymraeg a Saesneg ac ni fydd yn ddigon rhoi cyfarchiad agoriadol dwyieithog cyn darparu rhagor o wybodaeth yn Saesneg yn unig. Dylai'r neges fod mor gyffredinol â phosibl fel na bod angen ei newid yn aml. Bydd cyngor ar negeseuon peiriant ateb ar gael ar Connect.

4. ARDDANGOSIADAU AC ARWYDDION GWYBODAETH:

Rhaid i'r **holl** wybodaeth a arddangosir mewn man cyhoeddus fod yn ddwyieithog. Rhaid i'r **holl** arwyddion a osodir fod yn ddwyieithog ac nid dim ond y rhai a osodir mewn ardaloedd cyhoeddus.

Rhaid i **bawb** sy'n siarad ac yn dysgu Cymraeg wisgo bathodyn i ddangos lefel eu gallu yn y Gymraeg. Mae bathodynnau ar gael gan Benaethiaid Adrannau a Rheolwyr Busnes BCU.

5. DOGFENNAU A FFURFLENNI:

Rhaid i **bob** dogfen a ffurflen fod yn ddwyieithog.

6. GWEFANNAU A CHYFRYNGAU CYMDEITHASOL:

Bydd gwefan yr Heddlu yn ddwyieithog ac ni ellir lanlwytho unrhyw gynnwys heb ei gyfieithu yn gyntaf. Bydd angen i gynnwys fideo fod yn ddwyieithog hefyd neu bydd angen cynnwys isdeitlau, yn dibynnu ar y pwnc a'r siaradwr.

Rhaid i brif gyfrifon Twitter a Facebook yr Heddlu ddarparu trydariadau a negeseuon dwyieithog. Mae cronfa o drydariadau dwyieithog wedi'i chreu, sy'n cynnwys rhai o'r geiriau a'r brawddegau cyffredin a allai gael eu defnyddio mewn trydariadau. Mae'r gronfa hon ar gael gan Sion Ffrancon o'r Adran Cyfathrebu Corfforaethol.

Mae'n bwysig bod trydariadau yn cael eu cynllunio ymlaen llaw gymaint â phosibl er mwyn sicrhau eu bod yn gwbl ddwyieithog. Os na ellir gwneud hyn, mae'r gwasanaeth cyfieithu dan gontract yn cynnig dychwelyd trydariadau o fewn tua 30 munud am gost o £2.50 fesul trydariat. Dim ond yn ystod oriau swyddfa mae'r gwasanaeth hwn ar gael. Nid oes angen trydaru'n ddwyieithog pan fo argyfwng.

Mae'r gwasanaeth cyfieithu ar gael o ddydd Llun i ddydd Gwener, rhwng 9:00 am a 5:00 pm.

Bob tro y caiff trydariat newydd ei lunio a'i gyfieithu, rhaid ei anfon at yr Adran Cyfathrebu Corfforaethol er mwyn ei ychwanegu at y gronfa trydariadau.

Nid oes angen i gyfrifon cyfryngau cymdeithasol lleol fod yn ddwyieithog, ond anogir staff i wneud hynny os oes ganddynt y gallu.

7. RECRIWTIO AC ADNODDAU DYNOL:

Gall unrhyw aelod o staff sydd am gael gwybodaeth adnoddau dynol yn Gymraeg gael y wybodaeth honno yn Gymraeg. Gall yr Adran Adnoddau Dynol ddarparu polisïau adnoddau dynol ehangach yn ddwyieithog ar gais a dylent fod ar gael ar unwaith yn y rhan fwyaf o achosion. Gall deunyddiau adnoddau dynol cyffredin, fel y taflenni gwyliau blynyddol ac oriau hyblyg, gael eu darparu yn ddwyieithog hefyd.

O dan y Safonau, bob tro y caiff swydd newydd ei hysbysebu, rhaid asesu'r sgiliau iaith Gymraeg sydd eu hangen ar gyfer y swydd.

Rhaid cynnig pob proses recriwtio yn ddwyieithog. Felly, mae'n hanfodol caniatáu digon o amser i gynnal y broses mewn ffordd deg gan beidio â'i rhuthro.

HEB EI FARCIO'N DDIOGEL
SWYDDOGOL

Rhaid i becynnau ymgeisio a gwybodaeth am swyddi fod yn gwbl ddwyieithog. Mae'r ffurflen gais yn cynnwys adran sy'n gofyn i ymgeiswyr a hoffent gael cyfweiliad drwy gyfrwng y Gymraeg ac os hoffent gael cyfweiliad Cymraeg, rhaid gwneud trefniadau cyn gynted â phosibl. Os nad oes unrhyw aelodau o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i gyfweld ymgeisydd, **rhaid** trefnu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd 15 diwrnod gwaith cyn y cyfweiliad drwy'r [mewnflwch Cyfieithiadau Cymraeg](#).

Os bydd unigolyn yn llenwi ffurflen gais yn Gymraeg a/neu'n gwneud cais i siarad Cymraeg mewn cyfweiliad, rhaid gohebu â'r unigolyn hwnnw yn Gymraeg bob amser drwy gydol y broses recriwtio. Mae hyn yn cynnwys negeseuon e-bost, llythyrau a galwadau ffôn lle bo hynny'n ymarferol a bydd yn cynnwys unrhyw dasgau ysgrifenedig a osodir ar ddiwrnod y cyfweiliad. Cydnabyddir na fydd hi bob amser yn bosibl darparu gwybodaeth am swyddi penodol neu sgwrsio â'r rheolwr llinell yn Gymraeg ond bydd hyn yn dderbyniol ar yr amod bod y wybodaeth hon yn cael ei chyfleu i'r ymgeisydd.

8. CWYNION:

Rhaid cyfeirio pob cwyn mewn perthynas â'r Gymraeg at yr Adran Safonau Proffesiynol a'r arweinydd Datblygu Corfforaethol dros yr Iaith Gymraeg [Cyfeiriad e-bost i ddilyn].

9. DIGWYDDIADAU CYHOEDDUS:

Os byddwch yn trefnu digwyddiad cyhoeddus fel Diwrnod Agored BCU, neu'n talu o leiaf 50% o gostau digwyddiad cyhoeddus, rhaid i chi sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth hyrwyddo'r digwyddiad.

Yn ystod y digwyddiad, rhaid sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

10. ASESIADAU O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB:

Pan gaiff polisiâu neu brosiectau eu sefydlu neu'u hadolygu, mae'n bwysig cynnal Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb. O dan Safonau'r Gymraeg, mae'n ofynnol cynnal aseiad o'r goblygiadau i'r Gymraeg yn ystod unrhyw waith i ddatblygu ac adolygu polisiâu/prosiectau/arferion. Gallwch gael cyngor ar gynnal Aseidiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb gan Jayne Evans yn yr Adran Datblygu Corfforaethol.

[Cliciwch yma i weld y Canllawiau llawn sy'n gysylltiedig â'r broses hon](#)

GEIRIAU CHWILIO ALLWEDDOL:

Safonau'r Gymraeg
Gwasanaethau Cyfieithu
Dwyieithog

FFURFLENNI:

Ddim yn gymwys.

DEDDFWRIAETH A RHEOLIADAU:

[Mesur y Gymraeg 2011](#)

DEUNYDD CYFEIRIO:

[Hysbysiad Cydymffurfio Iaith Gymraeg Heddlu De Cymru](#)